OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3366

# Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2005

## RHAN VI

GWRANDAWIAD GAN Y PANEL ANNIBYNNOL

### Gofyn am wrandawiad gan y panel annibynnol

**22.**—(1) Caiff achwynydd ofyn am i gwyn gael ei hystyried ymhellach gan banel annibynnol yn unol â'r Rhan hon mewn unrhyw achos—

(a) pan fo awdurdod lleol wedi penderfynu na fydd yn ystyried cwyn o dan reoliad 9(5);

(b) pan nad yw ystyriaeth ffurfiol o dan reoliad 19 am ba reswm bynnag wedi'i chwblhau o fewn 3 mis i'r dyddiad pryd y gwnaed y gwyn;

(c) pan fo'r achwynydd yn anfodlon â chanlyniad yr ystyriaeth ffurfiol gan yr awdurdod lleol o dan reoliad 19;

(ch) pan nad yw ystyriaeth ffurfiol o dan Reoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2005(**1**), am ba reswm bynnag, wedi'i chwblhau o fewn 3 mis i'r dyddiad pryd y gwnaed y sylw; neu

(d) pan fo'r achwynydd yn anfodlon ag ystyriaeth ffurfiol yr awdurdod lleol o sylwadau a wnaed o dan Reoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2005.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) rhaid i gais o dan baragraff (1) gael ei wneud i'r Cynulliad o fewn 20 o ddiwrnodau gwaith i'r diwrnod yr anfonwyd yr ymateb ysgrifenedig i'r gwyn i'r achwynydd o dan reoliad 20(2) neu yr anfonwyd hysbysiad o dan reoliad 9(5) neu'r ymateb ysgrifenedig i'r achwynydd o dan reoliad 18(2) o Reoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant)(Cymru) 2005.

(3) Pan wneir cais o dan baragraff (1)(b) neu (ch) rhaid ei wneud o fewn 20 o ddiwrnodau gwaith i'r dyddiad pan fo'r achwynydd yn dod yn ymwybodol nad yw'r awdurdod lleol wedi anfon ymateb ysgrifenedig i'r gwyn neu'r sylw o fewn 3 mis i'r dyddiad y'i gwnaed.

(4) Pan fo achwynydd yn hysbysu'r awdurdod lleol y ceir cwyn yn ei erbyn ei fod yn gofyn am ystyriaeth bellach o'r gwyn gan banel annibynnol o dan baragraff (1) rhaid i'r awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, roi gwybod i'r Cynulliad am y cais a chaiff y cais ei drin fel pe bai wedi'i wneud i'r Cynulliad ar y dyddiad y daeth i law'r awdurdod lleol.

(**1**) O.S. 2005/3365 (Cy.262).